

Gwaethaf po rataf



Cefndir


Er i'r swm o alcohol sy'n cael ei yfed yng Nghymru ostwng ychydig ers yr uchafbwynt yn 2004, rydym ni fel cenedl yn dal i oryfed, gan lyncu mwy na dwbl yr hyn yr oeddem yn ei yfed yn yr 1950au. Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru 2014,¹ dywedodd 40% o oedolion Cymru iddynt yfed mwy na'r swm canllaw (cyfredol) yn ystod yr wythnos flaenorol, gan gynnwys bron i chwarter a ddywedodd iddynt yfed mwy na dwywaith hwnnw, gan gynyddu'n sylweddol y perygl iddynt ddatblygu cyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol gan gynnwys clefyd yr iau, a chanser y fron, y geg a'r gwddf.

O ganlyniad, mae ein system iechyd yng Nghymru dan bwysau aruthrol: yn ôl adroddiad gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae ysbytai Cymru'n ymdrin â chynifer â 1,000 o dderbyniadau sy'n ymwneud ag alcohol bob wythnos, a hynny'n "llawer llai na'r cyfanswm gwirioneddol, am fod angen cyfri'r rhai sy'n mynd i adrannau argyfwng, galwadau am ambiwlans ac apwyntiadau meddyg teulu, a'r cyfan yn deillio o alcohol".²

Yn anad dim, y ffaith fod alcohol yn haws ei fforddio sydd wedi peri cynnydd diota a'r niwed sy'n dod yn ei sgîl. Mae alcohol bellach ryw 54% yn fwy fforddiadwy nag oedd 35 mlynedd yn ôl, o gymharu ag incwm

cyfartalog pob aelwyd.³ Mae'r rhan fwyaf o'r alcohol rhad sydd ar werth ar gael trwy archfarchnadoedd a siopau diodydd eraill yn hytrach na thafarndai, ac yn aml fe gynigir alcohol am brisiau gostyngol er mwyn denu cwsmeriaid i siopa. At ei gilydd, y rhai sy'n yfed yn drymach sy'n tueddu i ffafrio'r alcohol rhataf; ac oherwydd hynny, yr alcohol rhataf yn y farchnad sy'n cael ei brynu a'i yfed fwyaf, ac sydd felly'n achosi'r niwed mwyaf.

Mae Alcohol Concern yn ymgyrchu ers sawl blwyddyn dros isafbris am bob uned o alcohol yng Nghymru. Byddai hwnnw'n gosod pris gwaelodol na fyddai modd gwerthu alcohol o dano. Mae gwaith modelu gan Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield i Lywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad y byddai isafbris fesul uned (MUP) yn effeithiol ar gyfer lleihau niwed alcohol a'r costau sy'n deillio o oryfed, a hynny heb effeithio'n ormodol ar yfwyr cymedrol.⁴ Mae Bil Iechyd Cyhoeddus (Isafbris am Alcohol) (Cymru) Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno isafbris o 50c yr uned, ond credir bod llawer yn dibynnu ar hynt cynlluniau tebyg yn yr Alban, lle mae Cymdeithas Wisgi'r Alban yn herio cyfreithlondeb MUP yn y llysoedd.



Alcohol Concern Cymru Briefing



Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru

Ein hastudiaeth ni

Galwodd Alcohol Concern Cymru am isafbris i Gymru am y tro cyntaf yn 2009. Saith mlynedd yn ddiweddarach, roeddem yn awyddus i gael darlun gwell o i ba raddau y mae alcohol rhad ar werth o hyd yng Nghymru ac ymha fath o fannau. Comisiynasom gwmni annibynnol i wneud ymchwil ledled Cymru i ganfod ble, sut a pha frandiau o alcohol sydd ar werth mewn siopau o dan y trothwy 50c yr uned sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru.

Gwnaethpwyd yr ymchwil mewn chwe man drefol yng Nghymru, sef Bangor, Caerfyrddin, yr Wyddgrug, Penarth, Pont-y-pŵl a'r Rhyl. Dewiswyd y rhain yn y bôn am eu bod yn rhoi trawstoriad o drefi a dinasoedd o faint canolig ymhob cwr o Gymru, a'u bod yn llefydd y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd â nhw. Tasg yr ymchwilwyr oedd ymweld ag archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill er mwyn dod o hyd i enghreifftiau o alcohol ar werth o dan y trothwy 50c yr uned. Cofnodwyd y pris unigol, y cynnwys alcohol (unedau/cryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint), math o ddiod, enw'r brand, enw'r manwerthwr, y lleoliad a'r dyddiad, a tynnwyd tystiolaeth ffotograffig lle roedd hynny'n ymarferol. Gwnaethpwyd y gwaith maes yn ystod Ionawr 2016 a chyflwynwyd yr holl ddata a gofnodwyd i Alcohol Concern Cymru yn Chwefror 2016.

Canlyniadau

- Cafwyd lluo o enghreifftiau o ddiodydd alcoholaidd ar werth am lai na 50c yr uned ym mhob un o'r chwe lleoliad. Roedd y pris isaf yr uned yn y Rhyl, lle roedd potelaid 3 litr o seidr Frosty Jack's ar werth am £3.50, sy'n cyfateb i 15.5c yr uned. Mae'r diodydd a oedd ar werth am lai na 25c yr uned (sef llai na hanner yr isafbris o 50c sydd ar y gweill) wedi'u rhestru yn y tabl isod:

Lleoliad	Cynnyrch/Brand	Pris yr uned
Bangor	Premium Dry Cider	24c
Bangor	Taurus Cider	24c
Caerfyrddin	Autumn Harvest Perry	20c
Caerfyrddin	Crofters Cider	20c
Caerfyrddin	Diamond White Cider	20c
Yr Wyddgrug	Woodgate Dry Cider	22c
Penarth	Country Manor Perry	22c
Penarth	Frosty Jack's Cider	22c
Pont-y-pŵl	Tesco Apple Cider	23c
Y Rhyl	Frosty Jack's Cider	15.5c
Y Rhyl	Taurus Cider	20c

- Fel y dangosir yn y tabl, seidr (a pherau) oedd yr holl gynhyrchion rhataf oll. Ond mae'n bwysig nodi i'r ymchwilwyr ddod o hyd i nifer o enghreifftiau o fathau eraill o alcohol hefyd, gan gynnwys lager, gwinoedd a gwirodydd ar werth rhwng 25c a 49c yr uned. At ei gilydd, nodwyd bod 113 o gynhyrchion alcohol gwahanol, mewn 18 siop, ar werth am lai na 50c yr uned.
- Nid manwerthwyr sy'n adnabyddus am fargeinion, fel Iceland a Home Bargains, oedd yr unig rai'n gwerthu diodydd o dan 50c yr uned chwaith; daeth yr ymchwilwyr o hyd i enghreifftiau yn archfarchnad Sainsbury's a siop Marks a Spencer hefyd. Er nad oedd amddifadedd yn ystyriaeth arbennig wrth ddethol y trefi i'w cynnwys yn yr astudiaeth, nid oedd yn anodd i'r ymchwilwyr ddod o hyd i alcohol o dan y trothwy 50c mewn ardaloedd cymharol ddifreintiedig fel y Rhyl nac mewn manau cymharol gefnog fel Penarth.

Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru



Trafodaeth

Wrth i'r ddadl am gyfreithlondeb MUP rygnu ymlaen, nid yw problem alcohol rhad a'r niwed y mae'n ei achosi yn diflannu. I'r rhai sydd ei eisiau, mae alcohol rhad ar gael yn weddol rwydd mewn siopau yng Nghymru, a hynny ar amryw o ffurfiau. Yr enghraifft fwyaf eithafol a ddaeth i'r fei yn ein hastudiaeth oedd seidr Frosty Jack's am 15.5c yr uned, sy'n golygu bod 14 uned – yr uwchafswm wythnosol ar gyfer yfed 'risg isel' yn ôl Prif Swyddogion Meddygol Prydain – ar gael am gwta £2.17. Ond roedd nifer o enghreifftiau eraill, rhai brandiau cyfarwydd ac eraill yn llai cyfarwydd: Lager Carlsberg am 29c yr uned, seidr Magner's am 28c yr uned, wisgi Queen Margot am 32c yr uned, perai Country Manor am 22c yr uned, a gwin Blackheath am 39c yr uned, ac enwi ond ychydig.

Yn ystod y blynyddoedd ers i Alcohol Concern alw'n gyntaf am isafbris yng Nghymru, bu nifer o fentrau ledled Prydain, rhai'n fwy llwyddiannus na'i gilydd, er mwyn ceisio cwtdogi ar werthu alcohol rhad. Pan dynnodd Llywodraeth Prydain ei chynlluniau'n ôl i gyflwyno MUP yng Nghymru a Lloegr yn

Nghorffennaf 2013, addawyd yn ei le 'isafbris amgenach', sef gwahardd gwerthu alcohol am 'lai na'i gost'. Ystyr hynny na all pris manwerthu unrhyw ddiad fod yn llai na chyfanswm y dreth a'r doll arni. Er hynny, dangoswyd mai cwta 0.7% o unedau ar y farchnad sydd wedi'u dal gan y polisi hwn, ac effaith bitw y mae'n ei chael ar ymddygiad yfed.⁵

Yn ogystal mae nifer gynyddol o siopau yn Lloegr wedi gwneud cytundebau gwirfoddol gydag awdurdodau lleol i beidio â gwerthu cwrw neu seidr o gryfder alcoholaidd mwy na 6.5% yn ôl cyfaint – diodydd 'super strength' yw'r term cyffredin. Gwendid amlwg hyn, yw, wrth gwrs, y gall yfwrw mwy penderfynol gael eu halcohol gan fanwerthwyr nad ydynt wedi llofnodi'r fath gytundeb; serch hynny, mae cytundebau o'r fath wedi dangos rhai arwyddion cadarnhaol o ran mynd i'r afael â phroblemau yfed ar y stryd. Er hynny, efallai nad yw'n annisgwyl fod nifer o gynhyrchwyr alcohol wedi bygwth camau cyfreithiol yn erbyn awdurdodau lleol am dramgwyddo deddfau cystadlu, ac mae'r Awdurdod Cystadlu a Marchnadoedd wedi cyhoeddi y caiff manwerthwyr wneud penderfyniad annibynnol i ymuno â chynllun ac i roi'r gorau i werthu alcohol cryf iawn, ond dim ond os nad ydynt yn trafod hyn â manwerthwyr eraill neu'n cytuno i hyn ar y cyd â nhw.⁶

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn awyddus i gael isafbris fesul uned yng Nghymru, ac yn cydnabod, er na all ddatrys pob un o'n problemau ynglŷn ag alcohol, y "byddai o fantais sylweddol i iechyd y genedl, gan leihau camddefnyddio alcohol a niwed cysylltiedig ag alcohol".⁷ Er hynny, fel yr awgrymwyd uchod, mae llawer yn dibynnu ar ddatblygiadau yn yr Alban o ran cyfreithlondeb MUP. Felly mae'n werth holi: os nad MUP, ynteu pa beth?

Roedd hi'n amlwg o ganlyniadau ein hastudiaeth mai seidr a pherau cryf iawn yw'r diodydd alcoholaidd rhataf sydd ar werth mewn siopau. Mae'n debyg fod hyn yn rhannol oherwydd y drefn drethi sydd ohoni:



Gwaethaf po rataf

Brïff Alcohol Concern Cymru

am resymau hanesyddol, mae'r dreth ar seidr yn llawer ysgafnach nag ar ddiodydd alcoholaidd eraill. Un posibiliad, felly, fyddai cynyddu'r dreth ar seidr nes ei bod yr un fath â'r dreth ar gwrw. Ond go brin fod llawer o awydd ymhlith gwleidyddion i wneud hynny ar hyn o bryd – wynebodd Llafur lawer o wrthwynebiad gan y diwydiant pan gynigasant godi'r dreth ar seidr 10% cyn Etholiad Cyffredinol 2010.⁸

Yn wir, ers hynny mae Llywodraeth Prydain wedi rhewi ac wedi torri'r dreth ar alcohol sawl gwaith (nid yw trethiant wedi'i ddatganoli) yn ystod yr ychydig flynyddoedd a aeth heibio, ac ni ragwelir newid yn y duedd hon yn fuan. At hynny, mae ymchwil ar y cyd gan dair prifysgol yn Lloegr wedi dangos bod cynyddu'r dreth ar alcohol weithiau'n cynyddu prisiau diodydd rhad yn llai na'r disgwyl, oherwydd bod manwerthwyr yn talu'r gost ychwanegol eu hunain yn hytrach na thrwy godi prisiau i'w cwsmeriaid – yn y bôn, mae alcohol rhad yn aros yn rhad, hyd yn oed gyda chynnydd yn y dreth.⁹

Mae angen mynd i'r afael â chynigion alcohol yng Nghymru sy'n dibynnu ar brisiau isel ac ar annog prynu ar fympwy. Mewn arolwg o yfyrwr Cymru yn

2009, dywedodd 61% iddynt brynu mwy o alcohol na'r bwriad wrth siopa oherwydd cynnig arbennig. Yn yr Alban, mae gwaharddiad ar gynigion aml-brynu (fel 'prynwch un, cewch un yn hanner pris') wedi achosi gostyngiad llawer cyflymach yng ngwerthiant alcohol yn y siopau nag a welwyd yng Nghymru a Lloegr (lle nad oes cyfyngiad or fath) yn ystod yr un cyfnod.¹⁰

Mae deddfwriaeth yr Alban hefyd yn mynnu bod alcohol sydd i'w yfed oddi ar y safle yn cael ei gyfyngu i un ran o'r y siop. Mae un astudiaeth ddiweddar wedi dangos y gall arddangos alcohol ar ddiwedd eiliau gynyddu'r gwerthiant hyd at 46% – effaith sy'n cyfateb i 9% o ostyngiad yn y pris am bob litr. Ar sail hyn, daeth ymchwilwyr i'r casgliad y byddai gwahardd y dacteg farchnata hon yn "cynnig y posibilrwydd annog dewisiadau ffordd o fyw iachach".¹¹

I gloi, y pwynt i'w nodi yw bod pob un o'r mesurau ychwanegol hyn – cynyddu trethi, cytundebau gwirfoddol, a rheolau llymach ar hyrwyddo – yn gallu gweithio'n dda, ond i raddau mwy neu lai, ar y cyd ag isafbris fesul uned y byddant yn gweithio *orau* i leihau niwed alcohol. Dyna pam mae Alcohol

Concern yn dal i bwysu dros gyflwyno'r fath isafbris yng Nghymru – mesur penodol iawn a fydd yn lleihau'r niwed sy'n deillio o gamddefnyddio alcohol. Canlyniad y fath fesur fyddai fod llawer o'r prisiau a welsom yn nhrefi Cymru – prisiau sy'n denu'r rhai sy'n yfed yn drymaf ac sy'n achosi'r niwed mwyaf – yn cael eu gwahardd am byth, gan wella iechyd ac, yn y pen draw, achub bywydau.



Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru






Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru

Bangor




Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru



Caerfyrddin





Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru

Yr Wyddgrug

Woodgate Dry Cider
- 4 can 440ml / £1.99
/ 2.3 uned ymhob can
- 22 geiniog yr uned

Galereux Lager
- 4 x 440ml cans / £2.79 / 2.1 uned ymhob can
- 33 ceiniog yr uned

Galahad Premium Lager
- 4 can 440ml / £2.09 / 1.8 uned ymhob can
- 29 ceiniog yr uned

Scotch Whisky
- 70cl / £10.29 / 28 uned
- 37 ceiniog yr uned

Magners
- 10 can 440ml / £7.00
/ 2 uned ymhob can
- 35 ceiniog yr uned

White Rum
- 70cl / £11.00 / 26.3 uned
- 42 geiniog yr uned


YR WYDDGRUG

Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru




Penarth





Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru




Gwaethaf po rataf

Briff Alcohol Concern Cymru



Y Rhyll



Gwaethaf po rataf

1. Gweler <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?lang=cy> [cyrchwyd 26/02/2016].
2. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) *Alcohol yng Nghymru 2014*, Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
3. Health and Social Care Information Centre (2015), *Statistics on Alcohol England 2015*, Llundain, HSCIC.
4. Prifysgol Sheffield (2014) *Model-based appraisal of minimum unit pricing for alcohol in Wales*, ar-lein, ar gael o <http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/141208-model-based-appraisal-minimum-unit-price-alcohol-en.pdf> [cyrchwyd 24/02/2016].
5. Brennan, A. et al. (2014) *Potential benefits of minimum unit pricing for alcohol versus a ban on below cost selling in England 2014: modelling study*, British Medical Journal, doi: <http://dx.doi.org/10.1136/bmj.g5452> [cyrchwyd 26/02/2016].
6. Gweler <https://www.gov.uk/government/collections/high-strength-alcohol-schemes-and-competition-law> [cyrchwyd 26/02/2016].
7. Gweler <http://www.morningadvertiser.co.uk/Legal/Legislation/Welsh-Government-to-push-ahead-with-alcohol-minimum-pricing-policy> [cyrchwyd 26/02/2016].
8. Gweler <http://news.sky.com/story/771868/labour-forced-to-put-cider-tax-on-hold> [cyrchwyd 26/02/2016].
9. Ally, K. A. et al. (2014) *Alcohol tax pass-through across the product and price range: do retailers treat cheap alcohol differently?*, Society for the Study of Addiction, 109, tt1994-2002.
10. Robinson, M. et al. (2013) *Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy: The impact of the Alcohol Act on off-trade alcohol sales in Scotland*, Caeredin, NHS Scotland.
11. Nakamura, R et al. (2014) *Sales impact on displaying alcoholic and non-alcoholic beverages in end-of-aisle locations: An observational study*, Social Science & Medicine, 108, tt68-73.

Alcohol Concern

Alcohol Concern yw'r elusen genedlaethol ar gamddefnyddio alcohol, gan ymgyrchu dros bolisiau alcohol effeithiol a gwell gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda phroblemau'n yn ymwneud ag alcohol. Rydym yn gweithio'n genedlaethol i ddylanwadu ar bolisi alcohol ac yn lleol i hybu'r ymarfer gorau. Rydym yn cefnogi proffesiynolion a sefydliadau trwy ddarparu arbenigedd, gwybodaeth a chyngor. Rydym yn herio'r diwydiant diodydd ac yn hybu ymwybyddiaeth ynghylch materion alcohol.

Brîff Alcohol Concern Cymru

Cyhoeddwyd gan Alcohol Concern,
ar ran Alcohol Concern Cymru,
8 Museum Place, Caerdydd, CF10 3BG

Ffôn: 029 2022 6746

E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Mawrth 2016

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf (gan gynnwys llungopïo neu storio mewn unrhyw gyfrwng electronig), neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwy'r pherchenogion yr hawlfraint.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.